**Cyfeirnod:** IR930

**Dyddiad cyhoeddi:** 9 Hydref 2024

# Archwiliad Cyngor Cymuned Clunderwen

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth ynghylch gwaith a wnaed yn 2018-19 yn ystod yr archwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Clunderwen ar gyfer 2017-18.

Er hwylustod, rwyf wedi copïo'ch cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

- **Amserlen fisol o'r gwaith a wnaed, gan gynnwys manylion y tasgau a gyflawnwyd.**

Costau amser yn ôl mis a gwaith a wnaed yn 2019:

| Mis | Amser a gradd | Ffi £ | Gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|
| **Mawrth 2019** | Rheolwr 5 awr | £560 | Delio â gohebiaeth gan [redacted]. Cysylltu â'r cyn-glerc. Cyflwyno adroddiad archwilio 2017-18 wedi'i gwblhau i'r cyngor. |
| **Mehefin 2019** | Rheolwr 2 Awr | £230 | Delio â gohebiaeth gan [redacted]. Cysylltu â'r cyn-glerc. |
| **Cyfanswm** | | £790 | |

- **Gohebiaeth a gafwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod yr archwiliad hwn**

Gan fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ddata personol sy'n ymwneud â thrydydd parti, mae wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r esemptiad o dan adran 40(2) yn un absoliwt, gan y byddai datgelu yn groes i egwyddorion diogelu data.

Fodd bynnag, craidd yr ohebiaeth barhaus oedd methiant parhaus Cyngor Cymuned Clunderwen i gydymffurfio â'r gofynion tryloywder gwybodaeth o ran arddangos hysbysiadau a chyfrifon ar y bwrdd hysbysiadau neu ar-lein. Er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd gan y clerc i'r Rheolwr Archwilio y byddai'r darpariaethau hyn yn cael eu rhoi ar waith, datgelodd gohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd na wnaed hynny, gan olygu bod angen cysylltu â'r clerc droeon.

- **Y rheswm pam y cafodd y gwaith hwn ei wneud gan reolwr archwilio**

Mater i'n disgresiwn ni yn unig yw dyrannu gwaith, ac fe'i penderfynir yn bragmatig. Wrth ystyried mater a godwyd, rydym yn ystyried:

- a yw'n dod o fewn cwmpas yr archwiliad,
- a yw'r cymhlethdod yn gofyn am archwilydd mwy profiadol i ddelio ag ef,
- a fyddai'n fwy effeithlon i uwch-archwilydd ymgymryd â'r gwaith yn hytrach nag archwilydd iau y bydd ei waith wedyn angen ei adolygu'n fanylach,
- y staff sydd ar gael.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth